Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Annwyl Riant / Warcheidwad,

I ddathlu diwedd blwyddyn brysur, rydym yn trefnu teithiau i flynyddoedd 9 a 10. Gallwch ddewis rhwng ymweliad â 'Pharc Hamdden Oakwood', ger Arberth yn Sir Benfro neu daith siopa i Gaerdydd, neu rownd o Golff yng nghlwb Golff Earlswood, Abertawe. Byddwn yn mynd ar ddydd **Llun 18fed o Orffennaf** - gadael yr ysgol am 9:00y.b. ac yn dychwelyd erbyn tua 4:30y.h. Mae'r bysiau ysgol arferol wedi'u trefnu i ddod i gasglu'r disgyblion am 4:45 y.p. yn hytrach na 3:20y.p., felly ni fydd angen gwneud trefniadau ychwanegol ar gyfer cludiant adref.

Pris taith **Oakwood bydd £20** a fydd yn cynnwys pris y bws a mynediad i'r parc.

Pris y daith i **Gaerdydd bydd £8** a fydd yn cynnwys pris y bws yn unig. Bwriedir gadael i ddisgyblion gael rhyddid i fynd o gwmpas Caerdydd am y diwrnod ac yna cwrdd ar ddiwedd y dydd. Fe fydd angen arian ychwanegol os yw'ch plentyn am brynu bwyd neu fynd i siopa.

Mae cyfle hefyd i ddisgyblion mynd am rownd o **Golff yn Earlswood, Abertawe**. Er mwyn mynychu'r daith yma mae'n hanfodol bod eich plentyn yn gallu chwarae Golff a bod gennddo/i clybiau ei hyn. **Mae'r daith yma'n costio £12,** mae hwn yn cynnwys bws o'r ysgol i'r cwrs Golff a rownd llawn(18 twll) – bydd angen dillad addas a phecyn cinio.

Os ydych yn dymuno i'ch plentyn ddod ar un o'r teithiau yma, llenwch y bonyn ar y gwaelod a'i ddychwelyd gyda'r taliad o £8 **neu** £20 neu £12 (sieciau yn daladwy i Ysgol Bryn Tawe gydag enw a dosbarth eich plentyn ar y cefn) **erbyn dydd Mercher 13eg o Orffennaf. Ni fydd unrhyw daliadau yn cael eu derbyn wedi'r dyddiad yma.**

Yn gywir

Mark Bridgens
(Pennaeth Cynorthwyol)

---

Enw eich plentyn ____________________________________________ Dosbarth ______

Rwyf yn caniatáu i fy mhlentyn fynd ar y daith i Oakwood / Caerdydd /Clwb Golff Earlswood ar ddydd Llun 18fed o Orffennaf. (Dileir fel yr angen)

Rwyf yn cynnwys taliad o:
£8 am Gaerdydd ☐ £20 am Oakwood ☐ £12 am Golff ☐

Llofnod Rhiant / Gwarcheidwad: _____________________________ Dyddiad:____________


**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601**
**E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth: Mr Simon Davies**